



Sesiwn Frifffio 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: ADUSCymru@llyw.cymru

YMGYNGHORIAD FFURFIOL ADUS

- Mae ymgynghoriad ADUS Llywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben. Derbyniwyd cyfanswm o 48 ymateb gan randdeiliaid.
- Mae'r tîm ADUS yn awr yn ffurfio ymatebion i'r holl atebion i'r ymgynghoriad i'w cyhoeddi fel 'Crynodeb o ymatebion'.
- Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu categorio yn ôl thema, a fydd yn cael eu dadansoddi gan y tîm ADUS. Bydd y darn hwn o waith hefyd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r 'Crynodeb o ymatebion'.

CEFNDIR

Creu un broses adolygu lle mae angen dull aml-asiantaeth, gan ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu ymarfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

CYNNYDD HYD YN HYN

- Mae papur wedi'i ddrafftio gan y tîm ADUS i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r capasiti cyfyngedig o ran Adolygwyr ledled Cymru. Cyflwynwyd y papur hwn i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a bydd nawr yn cael ei fireinio cyn ei anfon at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, i'w ystyried.

DIWEDDARIAD AR YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Croesawodd tîm YDdC nifer o brofwyr i Brifysgol Caerdydd i brofi chwiliadwyedd yr Ystorfa. Roedd rhanddeiliaid o amrediad o asiantaethau a sefydliadau gwahanol yn bresennol ar gyfer y profi hwn.

BRIFFIAD DIWEDDARU ADUS

GRŴP CYFEIRIO RHANDEILIAID a GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUEDD

- Cysylltwch os ydych chi dal eisiau bod yn rhan o'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid neu'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd a chyfrannu tuag at y broses o weithredu'r ADUS. Mae croeso ichi wahodd unrhyw un o'ch cydweithwyr a allai efallai gynorthwyo â gwaith y grŵp hwn.

Y CAMAU NESAF

- Bydd pob ymateb yn cael ei ddadansoddi, a bydd 'Crynodeb o ymatebion' yn cael ei gyhoeddi o fewn 12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad gau.
- Bydd y Bwrdd Gweinidogol ADUS yna'n adolygu'r canfyddiadau a bydd y tîm ADUS yn gwneud diwygiadau terfynol i'r Canllawiau Statudol yn barod i'w cyhoeddi (disgwylir i hyn ddigwydd adeg y gwanwyn yn 2024).

DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y GANOLFAN GYDLYNU ADUS

- Mae'r tîm ADUS wrthi'n sicrhau dyddiad ar gyfer y Bwrdd Gweinidogol nesaf. Bydd hyn yn ystod tymor yr hydref yn 2023.
- Bydd dangosfwrdd Canolfan Gydlynu ar gyfer dogfennau allweddol fel y gronfa ddata ar gyfer adolygiadau sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru'n cael ei ddatblygu yn unol â gweithrediad y broses ADUS.